# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu pymthegfed flwyddyn lawn Cynllun Lwfansau Tirlenwi (CLT) Cymru, o 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn derfynol. Pwrpas y cynllun yw sicrhau fod gwastraff trefol pydradwy sy’n cael ei gasglu gan awdurdodau lleol Cymru yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod cyfyngiadau ar faint o wastraff trefol pydradwy y gall awdurdodau lleol yng Nghymru ei anfon i safleoedd tirlenwi. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am gysoni'r lwfansau sydd ar gael i bob awdurdod lleol â faint o wastraff trefol pydradwy a anfonwyd ganddynt i safleoedd tirlenwi.

Nodwyd mater yn ymwneud ag ansawdd data gyda’r fformiwla ar gyfer amcangyfrif cyfran y gwastraff pydradwy mewn tunelledd sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae Atodiad 1 yn rhoi gwybodaeth gryno bwysig sydd angen ei hystyried ochr yn ochr â'r canlyniadau blynyddol.

Anfonodd awdurdodau lleol Cymru 73,294[1] tunnell o wastraff trefol pydradwy i safleoedd tirlenwi yn 2019/20 o gymharu â lwfans o 330,000 tunnell ar gyfer Cymru gyfan. Roedd hyn 78% yn llai (256,706 tunnell) na’r lwfans. Llwyddodd y 22 awdurdod lleol i gynhyrchu o fewn y lwfans unigol a bennwyd ar eu cyfer.

Wrth edrych ar berfformiad awdurdodau lleol unigol yn 2019/20, defnyddiodd Blaenau Gwent, Caerdydd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Tor-faen, Bro Morgannwg a Wrecsam lai na 10% o'u lwfansau, tra bod Abertawe wedi defnyddio dros 80% o'i lwfans.

2019-20 yw blwyddyn olaf y cynllun lle dyrannwyd lwfansau tirlenwi i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi lleihau nifer y gwastraff trefol pydradwy a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn ôl 91% (778,195 tunnell[2]) ers blwyddyn lawn gyntaf y cynllun yn 2005/06.

Mae gwaredu, sy'n cynnwys tirlenwi, ar waelod yr hierarchaeth gwastraff a dyma'r ffordd leiaf cynaliadwy o reoli ein gwastraff. Mae lleihau faint o wastraff trefol pydradwy sy’n mynd i safleoedd tirlenwi hefyd yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan atal cynhyrchu a rhyddhau methan i'r awyr o safleoedd tirlenwi. Mae hyn yn bwysig er mwyn lleihau effaith newid hinsawdd gan fod methan 25 gwaithyn fwy pwerus na charbon deuocsid fel nwy tŷ gwydr.

[1] O gyfanswm o 1,512,101 tunnell o wastraff soled trefol a gasglwyd gan awdurdodau lleol Cymru
[2] Anfonwyd 851,489 tunnell o wastraff trefol pydradwy i safleoedd tirlenwi yn 2005/06